**CABINET**
**DECISION CABINET**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**PENDERFYNIAD A BENDERFYNWYD AR: 8 Ebrill 2026**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM: Dydd Gwener 17 Ebrill 2026**
*Mae penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet yn agored i gael eu "galw i mewn" gan y Pwyllgor Dethol priodol. Os caiff benderfyniad ei alw i mewn, ni fydd yn dod i rym fel a nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.*

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **1** | GWEITHGOR CRONFA EGLWYSI CYMRU | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Penderfynodd y Pwyllgor ddyfarnu'r grantiau isod yn unol â'r rhestr ceisiadau.<br><br>RHESTR CEISIADAU A YSTYRIWYD 2025/26 - CYFARFOD 4.<br><br>Gofynnodd Eglwys Sant Mihangel, Glascoed £1,080 ar gyfer comisiynu pensaer i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd ddechreuol cyn datblygu ar addasu'r gofod sydd ar gael ar gyfer defnydd y gymuned.<br>Argymhelliad: Ni wnaed dyfarniad yn y cyfarfod, gan fod y pwyllgor angen mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd.<br><br>Gofynnodd Neuadd Goffa Earlswood a Newchurch West am £1,848 ar gyfer gwaith trwsio i baneli solar ac unionydd y Neuadd, gan eu bod yn darparu pŵer i'r neuadd a chynhyrchu incwm sy'n rhoi cymhorthdal ar gyfer y costau rhedeg.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £500 ar gyfer y gwaith trwsio i'r unionydd solar ar yr ased gymunedol yma.<br><br>Gofynnodd Canolfan Palmer, Cas-gwent am £3,000 i gael gorchudd llawr newydd yn ardal y Caffe am resymau iechyd a diogelwch.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £1,500 i gynorthwyo i gael gorchuddion llawr newydd yn ardal caffe yr ased defnydd cymunedol yma.<br><br>Gofynnodd Cyfeillion Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy am £495 i brynu cyfrifiadur llechen fel y gallai caffe rhyngrwyd yr hyb roi mynediad i'r rhyngrwyd i'r gymuned leol.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £350 i gynorthwyo i ddarparu cyfrifiaduron llechen ar gyfer defnydd y gymuned yng nghaffe rhyngrwyd yr Hyb.<br><br>Gofynnodd Neuadd Bentref Matharn a'r cylch am £18,405 i dynnu nenfwd y cyntedd sy'n cynnwys asbestos ac i roi nenfwd newydd a gosod goleuadau newydd yn lle'r rhai hen ac effeithiol.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £1,300 i gynorthwyo gyda cael goleuadau newydd.<br><br>Gofynnodd Bechgyn a Merched Eglwys Sant Mihangel, Tyndyrn £900 am hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer pobl ifanc yn mynychu Cwrs Hyfforddi Cenedlaethol Arweinwyr Iau.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £900 i gynorthwyo aelodau'r grŵp cymunedol hwn i bobl ifanc ar gyfer mynychu cwrs hyfforddi galwedigaethol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gofynnodd Eglwys Sant Mihangel, Tyndyrn Pavia a £2,430 ar gyfer adnewyddu offer trydanol yr eglwys i gyrraedd safonau cyfredol a gosod gwell goleuadau allanol.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £1,000 i gynorthwyo gosod goleuadau allanol yn yr eglwys i gyrraedd safonau diogelwch modern.<br><br>Gofynnodd Ymddiriedolaeth Plas Gunter am gyfraniad o £5,000 tuag at y gost £4m o ailddatblygu Plas Gunter a Gardd, adeilad Rhestredig Gradd II* yn y Fenni. I ddod ag ef yn ôl i gyflwr lle gall wasanaethu'r gymuned fel adnodd hanesyddol, addysgol a chymunedol.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £2,500 i gynorthwyo gydag ailddatblygu'r Plasty Gradd II* Rhestredig o'r 17eg Ganrif ar gyfer defnydd gweithredol y gymuned.<br><br>Gofynnodd Dreigiau Cil-y-Coed am £752 i gefnogi ymestyn y clwb gweithgareddau chwaraeon, gan fod nifer gynyddol o chwaraewyr eisiau ymuno, ac y byddai hyn wedyn yn galw am offer chwaraeon ychwanegol i ddarparu ar gyfer yr holl gyfranogwyr.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £320 i gynorthwyo i ddarparu adnoddau ffisegol ychwanegol i ehangu'r clwb chwaraeon cymunedol hwn i ehangu.<br><br>Gofynnodd Capel Bedyddwyr Soar, Pandy am £400 i drwsio ffens ar hyd glan yr afon agored yn arwain at fynedfa'r capel oherwydd pryderon iechyd a diogelwch.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £400 i gynorthwyo i drwsio ffens capel sy'n atal mynediad damweiniol i lan yr afon.<br><br>Gofynnodd Eglwys Teilo Sant, Llandeilo Croesenni am £1,000 ar gyfer gwaith trwsio to yr eglwys; ffin derfyn; croes bregethu a llawr y cyntedd, a chwympo coeden ywen anniogel ym mynwent yr eglwys.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £1,000 i gynorthwyo i drwsio ffabrig adeilad yr eglwys a gwaith cynnal a chadw cysylltiedig. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **2** | PROHIBITION OF DRIVING EXCEPT FOR ACCESS, GOLDWIRE LANE, MONMOUTH. | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Peidio cynnal ymchwiliad cyhoeddus a chymeradwyo'r gorchymyn a ddynodir isod a'I wneud yn barhaol:<br><br>Cyngor Sir Fynwy (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig) (Lon Goldwire, Trefynwy) Gorchymyn Traffic Arbrofol 2024 |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |